




Llawlyfr Myfyrwyr



Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol



Tystysgrif Cymhwysedd laith i Athrawon 2017



Tystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon (TCA)

Beth yw'r Dystysgrif?

Prif nod y dystysgrif newydd hon yw cydnabod lefel sgiliau ieithyddol (llafar ac ysgrifenedig) myfyrwyr ynghyd â dangos eu gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn hyderus.

Mae'r Dystysgrif wedi ei chyflwyno ar sail cais gan Lywodraeth Cymru yn 2014 i'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch ddatblygu a gweithredu tystysgrif cymhwysedd Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon Cymraeg gyda'r nod o'i dyfarnu i bob athro arfaethedig a fydd yn dymuno dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r cynllun yn fodd i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau mewn Cymraeg ysgrifenedig/llafar ym maes addysg uwch a thu hwnt ac i adnabod gwerth y sgiliau hyn yn addysgol ac mewn gweithle cyfrwng Cymraeg/dwyieithog.

Pwy all ymgeisio am y Dystysgrif Sgiliau iaith i Athrawon?

Yn ystod 2016/17, mae modd i fyfyrwyr TAR Cynradd a myfyrwyr TAR Uwchradd sy'n dilyn eu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg ymgeisio am y dystysgrif.

Sut mae cofrestru ar gyfer y Dystysgrif?

Cydllynwyr y Dystysgrif yn y Canolfannau Addysg Athrawon fydd yn trefnu'r cofrestru ar ran y myfyrwyr. Bydd y manylion hyn yn cael eu trosglwyddo i'r Coleg Cymraeg sy'n cydlynu'r holl waith yn genedlaethol.

Amodau'r Dystysgrif

Bydd disgwyl i'r myfyrwyr a fydd am ymgeisio am y Dystysgrif:

- ▶ gofrestru gyda chydlynnydd y dystysgrif yn y Ganolfan Addysg Athrawon berthnasol
- ▶ bod yn aelodau o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (bydd hyn yn digwydd yn awtomatig eleni wrth gofrestru a bydd pob myfyriwr yn derbyn e-bost gan y Coleg yn cadarnhau eu haelodaeth)
- ▶ mynychu sesiynau gloywi iaith (sydd eisoes yn rhan o'r cyrsiau TAR)
- ▶ cwblhau profiad addysgu proffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg
- ▶ cwblhau asesiad llafar/addysgu ymarferol drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ail brofiad ysgol
- ▶ cwblhau arholiad ysgrifenedig

Graddau'r Dystysgrif

Bydd dwy ran i'r Dystysgrif, ac i fod yn deilwng ohoni mae'n rhaid pasio'r ddwy ran. Bydd y Dystysgrif yn cynnwys:

Rhan 1: Arholiad ysgrifenedig a fydd yn asesu sgiliau Cymraeg ysgrifenedig y myfyrwr. Bydd yr arholiad ysgrifenedig yn cyfrif 40% tuag at y marc terfynol.

Rhan 2: Asesiad ymarferol – Asesiad o allu'r myfyrwr i addysgu'n ymarferol drwy gyfrwng y Gymraeg (sy'n cyfrif 60% tuag at y marc terfynol). Bydd graddau myfyrwyr yn cael eu pennu gan fentoriaid ysgol ar sail arsylwi cyfres o wersi yn ystod eu profiad addysgu proffesiynol. Bydd dwy ran i'r asesiad o addysgu'n ymarferol:

- i. Safon llythrennedd personol (marc allan o 100 a gwerth 30% o'r radd derfynol), ac
- ii. Y gallu i gymhwyso a datblygu llythrennedd dysgwyr (marc allan o 100 a gwerth 30% o'r radd derfynol).

Dyfernir un o bedwar safon i bob myfyrwr:

Rhagorol (Gradd 1) – marc terfynol yn 70 neu'n uwch

Da (Gradd 2) – marc terfynol rhwng 60 a 69

Digonol (Gradd 3) – marc terfynol rhwng 50 a 59

Anfoddhaol (Gradd 4) – marc terfynol yn is na 50

Sesiynau dysgu

Fel rhan o'r cwrs TAR, bydd cyfle i fyfyrwyr fynychu sesiynau iaith yn eu sefydliadau gan ymdrin â'r elfennau isod:

1. Cywair iaith – gwahanol gyweiriau iaith, a'r modd y dylid addasu iaith yn ôl diben a chynulleidfa
2. Holi Cwestiynau – technegau holi pwrpasol, a mathau gwahanol o gwestiynau
3. Y Ffurf Gorchmynnol – defnyddio gorchmynion syml er mwyn sicrhau rheolaeth a threfn yn y dosbarth
4. Defnyddio Geiriadur ac Arfau iaith Cyfrifiadurol – defnyddio Cysill/Cysgair yn llwyddiannus (ac offer cywiro Microsoft Word os yw ar gael)
5. Berfau – amseroedd y ferf a rhediad y berfau rheolaidd a'r berfau afreolaidd mwyaf cyffredin
6. Arddodiaid – rheolau'r arddodiaid, gan gynnwys treiglo ar ôl arddodiaid, rhedeg arddodiaid, dewis arddodiaid cywir ac osgoi dilyn patrymau'r Saesneg
7. Gwallau cyffredin ac arweiniad i ddysgwyr ar gywirdeb – cywiro brawddegau a chynnig rhesymau dros gywiriadau. Ymateb yn adeiladol i iaith lafar ac ysgrifenedig disgyblion ysgol
8. Cyfieithu a Thrawsieithu yng nghydestun addysgu a dysgu mewn sefyllfaoedd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Deall y gwahaniaeth rhwng trawsieithu a chyfieithu
9. Gwahaniaethu – sicrhau darpariaeth sy'n ymestyn y mwyaf galluog ac yn darparu'n briodol ar gyfer myfyrwyr llai galluog, ynghyd â defnyddio ieithwedd sy'n briodol i ddysgwyr o wahanol gefndiroedd ieithyddol.

Pryd a ble fydd y sesiynau cefnogi/gloywi iaith yn cael eu cynnal?

Bydd y sesiynau'n cael eu cynnal yn y gwahanol Ganolfannau Addysg Athrawon yn ystod y tymor dysgu. Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am y sesiynau sydd ar gael bydd angen cysylltu â phrif gydlynnydd y TCA yn y Ganolfan Addysg Athrawon berthnasol:

Cyswllt Cyrsiau TAR Uwchradd

Manon Siôn mws@bangor.ac.uk

(Cydlynnydd cenedlaethol ar gyfer myfyrwyr y cyrsiau TAR Uwchradd)

Cyswllt cyrsiau TAR Cynradd

Gogledd a chanolbarth

Gwawr Maelor Williams

g.m.williams@bangor.ac.uk

De-orllewin

Linda Davies l.davies@uwtsd.ac.uk

De-ddwyrain

Sioned Dafydd s.dafydd@cardiffmet.ac.uk

Adnoddau ar-lein

Mae llawer o adnoddau dysgu defnyddiol ar wefan Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r dystysgrif hon yn dangos tystiolaeth o sgiliau iaith myfyrwyr, a'u gallu i weithio yn broffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg. Datblygwyd yr adnoddau i gynorthwyo ymgeiswyr y Dystysgrif Sgiliau Iaith i baratoi ar gyfer eu hasesiadau. Ond, maent ar gael i bawb ac yn addas i unrhyw un sydd am wella eu sgiliau yn y Gymraeg.

colegcymraeg.ac.uk/sgiliauiaith

Yr Asesiadau

1. Yr arholiad ysgrifenedig

Bydd dyddiadau'r arholiad ysgrifenedig yn amrywio fesul cwrs a chanolfan. Gweler isod:

Arholiad Ysgrifenedig TAR Uwchradd

Gogledd a'r canolbarth – 8 Mai 2017

De-orllewin – 8 Mai 2017

De-ddwyrain – 8 Mai 2017

Arholiad Ysgrifenedig TAR Cynradd

Gogledd a'r canolbarth – 22 Chwef 2017

De-orllewin – 12 Mai 2017

De-ddwyrain – 12 Mai 2017

Bydd myfyrwyr yn derbyn manylion pellach ynghylch lleoliad ac amseriad yr arholiad rhai wythnosau cyn y dyddiad.

Arholiad Ysgrifenedig -

Gwybodaeth Bellach

Bydd tair tasg i'w cwblhau yn yr arholiad ysgrifenedig. Hyd yr arholiad fydd awr a hanner. Ceir enghreifftiau o bapurau arholiad tebyg ar wefan Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol:

colegcymraeg.ac.uk/sgiliauiaith/adnoddau

Tasg 1: Cywiro (20% o farciau'r papur)

Bydd darn o ryw 150 o eiriau ar y papur, yn cynnwys tua 22 o wallau gramadegol.

Bydd union nifer y gwallau yn cael ei nodi ar y papur. Bydd disgwyl i fyfyrwyr gywiro'r gwallau a nodi'r cywiriadau mewn print trwm (bold). Nid yw tynnu sylw at y gwallau'n ddigon, ac ni roddir unrhyw farciau os na fydd y gwallau wedi eu cywiro. Nid oes angen esbonio'r rhesymau dros gywiro. Ni ddylid aralleirio na newid arddull y darn chwaith. Bydd modd ddefnyddio Cysill i ganfod y gwallau, ond ni fydd Cysill yn sylwi ar y rhan fwyaf ohonynt ac mae'n bosibl y bydd yn camgywiro rhai pethau. Felly, bydd angen bod yn ofalus wrth ddefnyddio Cysill a disgwylir i fyfyrwyr ddarllen eu gwaith yn drylwyr ar ôl ei orffen.

Tasg 2: Trawsieithu (40% o farciau'r papur)

Bydd angen llunio trawsieithiad o erthygl Saesneg, a fydd tua 450 o eiriau. Mae trawsieithu'n wahanol iawn i gyfieithu oherwydd bod angen crynhoi'r wybodaeth yn y darn yn ogystal â throsi'r wybodaeth i iaith arall. Dim ond prif negeseuon y darn y dylid eu cynnwys, a dylai'r trawsieithiad fod tua thraean/chwarter y gwreiddiol, sef rhwng 112 a 150 gair. Bydd myfyrwyr yn colli marciau am y dasg hon os bydd y trawsieithiad yn rhy fyr neu'n rhy hir. Mae'n rhaid cynnwys prif neges y darn a'r isbwyntiau pwysicaf. Dylid nodi nifer y geiriau ar ddiwedd y trawsieithiad. Bydd cywirdeb y trawsieithiad yn cael ei ystyried wrth farcio.

Meini Prawf Tasg 2 (Trawsieithu):

Bydd yr arholwyr yn ystyried yr elfennau hyn wrth farcio'r dasg:

- cywirdeb a defnyddio arfau iaith

gyfrifiadurol e.e. Cysill

- cystrawen a geirfa (cystrawennau amrywiol heb fod dylanwad y Saesneg arnynt, geirfa a themau amrywiol a phwrpasol)
- cywair/arddull (dangos dealltwriaeth o gywair iaith sy'n briodol i'r dasg)
- egwyddorion trawsieithu (bydd ymgeiswyr yn ennill marciau am gyflwyno prif bwyntiau'r darn gwreiddiol, am gadw at ei ystyr ac am drosi ystyr idiomau ac ati i gyfleo naws a bwriad y gwreiddiol, heb gyfieithu'n slafaid)
- cadw at ofnion y dasg (sichrau nad yw hyd y trawsieithiad heb fod yn rhy hir/fyr)

Tasg 3: Ysgrifennu rhydd (40% o farciau'r papur)

Bydd gofyn i fyfyrwyr ysgrifennu darn ffeithiol byr, rhwng 280 a 330 o eiriau. Mae'n bosib y bydd y cwestiwn yn gofyn i ymgeiswyr ystyried eu profiadau yn y byd addysg. Nid ysgrifennu stori neu ddarn creadigol yw'r dasg hon.

Bydd angen darllen y cwestiwn yn fanwl iawn a sichrau bod pob agwedd ar y cwestiwn yn cael ei ateb. Bydd marciau yn cael eu colli os na fydd yr ateb yn ymdrin â holl elfennau'r cwestiwn, ac os bydd y darn yn rhy fyr neu'n rhy hir. Bydd cywirdeb y darn yn cael ei ystyried wrth farcio.

Meini Prawf Tasg 3: Ysgrifennu rhydd

Bydd yr arholwyr yn ystyried yr elfennau hyn wrth farcio'r dasg:

- ▶ cywirdeb a defnyddio arfau iaith cyfrifiadurol e.e. Cysill
- ▶ cystrawen a geirfa (cystrawennau amrywiol heb fod dylanwad y Saesneg arnynt, geirfa a thermau amrywiol a phwrpasol)
- ▶ cywair/arddull (dangos dealltwriaeth o gywair iaith sy'n briodol i'r dasg)
- ▶ cynnwys (byddwch yn ennill marciau am gynnwys sy'n ateb gofynion y dasg yn drylwyr)
- ▶ cadw at ofynion y dasg (sicrhau nad yw hyd y darn ysgrifennu rhydd yn rhy hir/fyr)

- ▶ Sgiliau llythrennedd personol y myfyriwr
- ▶ Adnoddau iaith y myfyriwr
- ▶ Geirfa, termau a sillafu
- ▶ Treigladau
- ▶ Atalnodi
- ▶ Brawddegau, paragraffau a defnydd o ferfau

Rhan 2 o'r asesiad ymarferol

Gallu'r myfyriwr i gymhwyso a datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwyr (marc allan o 100 a gwerth 30% o'r radd derfynol).

Bydd y Mentor Ysgol yn ystyried y meini prawf canlynol er mwyn dyfarnu marc yr elfen hon:

- ▶ Gwybodaeth a dealltwriaeth iaith y myfyriwr
- ▶ Gallu'r myfyriwr i gefnogi a datblygu llafaredd y dysgwyr
- ▶ Cynnwys iaith ysgrifenedig y myfyriwr
- ▶ Ystyriaeth y myfyriwr i sgiliau llythrennedd dysgwyr wrth gynllunio
- ▶ Cymedroli'r Asesiad Ymarferol

Yr ail brofiad dysgu yn unig a asesir gan fentor ar gyfer y Dystysgrif. Bydd y Coleg Cymraeg yn trefnu bod y Cymedrolwyr a'r Prif Arholwr yn arsylwi gwersi sampl o fyfyrwyr o bob Canolfan Addysg Athrawon. Bydd y sampl arsylwi yn cael ei bennu gan y Coleg mewn ymgynghoriad â'r Canolfannau er mwyn sicrhau trawstoriad o'r safonau. Pwysleisir nad yw presenoldeb y Cymedrolwyr a/neu'r Prif Arholwr yn adlewyrchiad o safon y myfyriwr, a gwneir pob ymdrech i sicrhau nad yw eu presenoldeb yn amharu ar y myfyriwr.

2. Yr asesiad ymarferol

Asesiad o allu'r myfyriwr i addysgu'n ymarferol drwy gyfrwng y Gymraeg. Disgwylir i bob 'Mentor Ysgol' asesu myfyrwyr yn ystod eu profiad addysgu proffesiynol olaf ar gyfer asesiad ymarferol y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon. Fel rhan o'r cwrs TAR, bydd disgwyl i fyfyrwyr gynllunio a chynnal cyfres o wersi ymarferol. Bydd y Mentor Ysgol yn arsylwi'r gwersi hyn yn rheolaidd. Ar ddiwedd y profiad addysgu proffesiynol bydd yr arsylwadau hyn yn sail i ddyfarnu marciau terfynol ar gyfer dwy elfen y'r asesiad ymarferol.

Rhan 1 o'r asesiad ymarferol

Safon llythrennedd personol y myfyriwr (marc allan o 100 a gwerth 30% o'r radd derfynol).

Bydd y Mentor Ysgol yn ystyried y meini prawf canlynol er mwyn dyfarnu marc yr elfen hon:

Ymweliad cymedroli

Bydd y Coleg Cymraeg yn rhoi gwybod i'r ysgol a'r myfyriwr mewn da bryd os bydd myfyriwr yn rhan o'r broses gymedroli. Disgwylir i'r myfyriwr ddarparu tystiolaeth benodol ar gyfer ymweliad y cymedrolydd:

- Copi o gynllun gwers ac adnoddau'r wers a arsylwir
- Ffeil yn cynnwys holl gynlluniau gwersi'r profiad addysgu proffesiynol ac enghreifftiau o adnoddau a baratowyd
- Tystiolaeth o asesu a marcio gwaith disgyblion
- Enghreifftiau o asesiadau ffurfiannol ac adolygiadau myfyriol y myfyrwr

Marcio papurau

Bydd y papurau arholiad yn cael eu marcio'n ddiennw gan arholwyr cymwys wedi eu penodi gan y Coleg Cymraeg. Bydd y Prif Arholwr yn cymedroli'r papurau. Wedi hynny, bydd y Bwrdd Arholi'n cwrdd er mwyn cadarnhau'r marciau cyn eu cyhoeddi.

Cyhoeddi'r canlyniadau

Bydd myfyrwyr yn derbyn eu canlyniadau drwy e-bost gan y Coleg Cymraeg yn ystod mis Mehefin 2017. Bydd yr e-bost yn nodi'r canlyniad (h.y. Llwyddo/Methu) a lefel y dyfarniad (Rhagorol, Da, Digonol, Anfodddhaol).

Ar ôl derbyn y canlyniad, bydd hawl gan fyfyrwyr i gysylltu â'r Coleg i ofyn am y marciau a gawsant yn yr arholiad ysgrifenedig a'r asesiad ymarferol.

Bydd pawb a fydd yn llwyddo yn derbyn tystysgrif erbyn mis Medi 2017.


Apelio

Os yw myfyriwr yn dymuno apelio yn erbyn y dyfarniad y mae wedi ei dderbyn, mae'n rhaid cyflwyno'r apêl o fewn 14 diwrnod ar ôl derbyn y canlyniad. Bydd angen cyflwyno'r apêl ar ffurf llythyr yn nodi'n eglur y sail ar gyfer yr apêl. Cewch ragor o fanylion am y broses apelio yn [Rheoliadau Asesu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol](#) sydd ar wefan y Dystysgrif Sgiliau Iaith.

Ailsefyll

Bydd hawl gan ymgeiswyr aflwyddiannus i ailsefyll yr asesiadau y flwyddyn ganlynol. Os bydd ymgeisydd wedi llwyddo mewn un asesiad, ond heb sefyll yr asesiad arall am resymau dilys (e.e. salwch, profedigaeth), bydd modd cadw'r marc ar gyfer y flwyddyn ganlynol ar yr amod bod y Coleg yn derbyn tystiolaeth i gadarnhau'r absenoldeb e.e. llythyr meddyg. Bydd angen cyflwyno'r dystiolaeth honno o fewn 14 diwrnod ar ôl dyddiad yr arholiad /asesiad.





www.colegcymraeg.ac.uk